IOPC Independent Office for Police Conduct

Ymgyrch Linden – Dysg ac Argymhellion

Tachwedd 2021

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE®

Cynnwys

Cyflwyniad 2
Gwersi a ddysgwyd ac argymhellion 3
Argymhellion dysgu ffurfiol 4
Meysydd i'w hystyried ymhellach ac argymhellion ar eu cyfer 8
Meysydd eraill o ddysg y gwnaethom eu hystyried 13

Adroddiad yn canolbwyntio ar gwynion ynghylch ymddygiad yr heddlu yn ystod eu hymchwiliadau i achosion hanesyddol o gam-drin plant a chamfanteisio arnynt yn rhywiol yn Rotherham rhwng 1997 a 2013.

Cyflwyniad

Ymgyrch Linden Ymgyrch Linden yw'r enw a roddwyd ar ymchwiliad yr IOPC i nifer sylweddol o gwynion a honiadau mewn perthynas ag ymateb yr heddlu i achosion hanesyddol o gam-drin plant a chamfanteisio arnynt yn rhywiol yn ardal Rotherham.

Dechreuodd ein gwaith yn 2014 a pharhaodd i ehangu hyd at 2018, pan gafwyd pum cwyn newydd. O ganlyniad i Ymgyrch Linden, cafwyd 91 o ymchwiliadau annibynnol, a ddechreuwyd rhwng 2014 a 2018, a daeth yr olaf o'r rhain i ben yn 2020.

Ymchwiliodd yr ymgyrch i 265 o honiadau unigol, sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1997 a 2013. Roedd 51 o achwynwyr, ac roedd 44 ohonynt wedi goroesi camdriniaeth. Rydym yn ddiolchgar i'r achwynwyr a'r goroeswyr hynny y mae eu dewrder yn cyflwyno eu hunain wedi ein galluogi ni i daflu goleuni ar fethiannau'r gorffennol.

Ymchwiliodd Ymgyrch Linden i ymddygiad 47 o swyddogion: canfuwyd bod gan wyth ohonynt achos i'w ateb am gamymddwyn a bod gan chwech ohonynt achos i'w ateb am gamymddwyn difrifol. Mae pump ohonynt wedi wynebu cosbau gan reolwyr, hyd at rybudd ysgrifenedig terfynol, ac mae un gwrandawiad yn dal i fynd rhagddo. Bydd adroddiad llawn ynghylch canfyddiadau'r ymchwiliadau a'r canlyniadau yn cael ei gyhoeddi ar ôl i'r gwrandawiad camymddwyn olaf ddod i ben yn 2022.

Mae dealltwriaeth yr heddlu o'r math hwn o droseddu wedi datblygu'n sylweddol yn ddiweddar, a rhaid cydnabod yr ymdrechion sydd wedi'u gwneud i wella'r modd yr ymdrinnir â'r achosion hyn. Wedi dweud hynny, mae gwaith i'w wneud eto ac rydym wedi cyflwyno'r argymhellion hyn i Heddlu De Swydd Efrog, cyrff plismona cenedlaethol ac eraill er mwyn sicrhau bod dewrder y rhai a gyflwynodd eu hunain ac a gefnogodd ein hymchwiliadau yn arwain at newid parhaus ac nad yw camgymeriadau'r gorffennol yn cael eu hailadrodd.

Gwersi a ddysgwyd ac argymhellion

Mae'r gwersi yr ydym yn eu dysgu yn ystod ein hymchwiliadau yn helpu i wella arferion plismona, ac atal digwyddiadau cyffelyb rhag digwydd eto.

Mae gennym ddau rym cyfreithiol i wneud argymhellion dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu[1] ac rydym yn amlinellu'r rhain yn yr adroddiad dysg hwn, ynghyd â gwersi eraill y gwnaethom eu hystyried ond na chyflwynasom argymhellion yn seiliedig arnynt.

Mae ein dysg wedi ystyried y 91 ymchwiliad yr ydym wedi'u cwblhau hyd yn hyn dan Ymgyrch Linden er mwyn adnabod unrhyw themâu neu faterion sy'n ailadrodd. Gwnaethom wrando ar adborth gan oroeswyr, a thrafod dysg gyda Heddlu De Swydd Efrog, rhanddeiliaid sydd â diddordeb a'n staff ein hunain a weithiodd ar yr ymchwiliadau hyn.

O ystyried y cyfnod hir o amser sy'n berthnasol i'r digwyddiadau yr ydym wedi ymchwilio iddynt, gwnaethom ystyried a yw'r gwersi i'w dysgu a adnabuom yn parhau i fod yn broblem nawr neu a yw polisi ac ymarfer plismona wedi newid ers ymchwilio i'r digwyddiadau.

Mae nifer o arolygiadau ac adolygiadau wedi'u cynnal yn benodol mewn perthynas â chamfanteisio ar blant yn rhywiol yn Rotherham, sawl argymhelliad a gyflwynwyd i Heddlu De Swydd Efrog a'r ffocws ehangach ar gamfanteisio ar blant yn rhywiol ar draws plismona a gofal cymdeithasol, megis yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Rydym hefyd yn cydnabod bod dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o gamfanteisio ar blant yn rhywiol wedi datblygu a gwella dros amser.

Er bod y ddysg yr ydym wedi'i hadnabod yn ymwneud ag ymchwiliadau i gamfanteisio ar blant yn rhywiol, gall fod yn berthnasol yn ehangach i fathau eraill o drosedd. Yn benodol, mae cryn dipyn o orgyffwrdd rhwng camfanteisio ar blant yn

---

[1] Dan baragraff 28A, Atodlen 3 *Deddf Diwygio'r Heddlu* gallwn wneud argymhelliad mewn perthynas ag unrhyw fater yr ymdrinnir ag ef mewn adroddiad, apêl neu adolygiad ymchwiliad. Gallwn gyflwyno argymhellion i heddluoedd (un heddlu neu nifer ohonynt) neu gomisiynwyr yr heddlu a throseddu. Gallwn hefyd, dan rai amgylchiadau, gyflwyno argymhellion i sefydliadau eraill sy'n berthnasol i'r ymchwiliad, apêl neu adolygiad. Rhaid i'r heddlu neu'r sefydliad yr ydym yn cyflwyno argymhelliad iddo ymateb i ni cyn pen 56 diwrnod, oni bai bod rhesymau dilys dros beidio â gwneud hynny. Gallant hefyd ofyn i ni ymestyn yr amser sydd ganddynt i ymateb. Rhaid cyhoeddi'r argymhelliad a'r ymateb.

Mae Adran 10 *Deddf Diwygio'r Heddlu* yn ein caniatáu ni i wneud argymhellion ehangach ynghylch ymarfer yr heddlu sy'n ymddangos i ni yn angenrheidiol neu'n ddymunol, yn sgil ein gwaith. Nid yw hyn yn cyflwyno gofyniad cyfreithiol i'r sawl sy'n derbyn yr argymhelliad i ymateb, na chyhoeddi'r argymhelliad neu unrhyw ymateb.

rhywiol a chamfanteisio ar blant yn droseddol neu ‘linellau cyffuriau’. Roedd camfanteisio ar blant yn droseddol yn destun a godwyd gan y rhan fwyaf o swyddogion y rheng flaen fel maes pryder a gwnaethant fynegi awydd clir i ddatrys pethau.

Argymhellion dysgu ffurfiol

Cyflwynir yr argymhellion canlynol dan baragraff 28A, Atodlen 3 *Deddf Diwygio’r Heddlu*. Rhaid i’r heddlu neu’r sefydliad yr ydym yn cyflwyno argymhelliad iddo ymateb i ni cyn pen 56 diwrnod.

Sicrhau bod swyddogion a staff yr heddlu yn gwybod sut i ymdrin â chamfanteisio ar blant yn rhywiol

Canfu ein hymchwiliadau fod disgwyliad i swyddogion a staff, nad oeddynt yn meddu ar y sgiliau cywir, arwain ymchwiliadau camfanteisio ar blant yn rhywiol, ac y byddai unigolion yn cael tasgau nad oeddynt wedi derbyn hyfforddiant i’w cyflawni.

Mae gwelliannau helaeth wedi’u cyflawni o ran hyfforddiant camfanteisio ar blant yn rhywiol yn genedlaethol. Dywedodd Heddlu De Swydd Efrog wrthym eu bod wedi gweithredu eu mesurau newydd eu hunain i helpu i sicrhau bod swyddogion a staff yn cael hyfforddiant priodol i ymdrin â chamfanteisio ar blant yn rhywiol. Cydnabuwyd hyn gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi yn ei hadroddiad effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu 2018/19 a ddywedodd fod Heddlu De Swydd Efrog yn “datblygu ei weithlu a’i arweinwyr yn dda ac yn deall y sgiliau a’r galluoedd sydd eu hangen nawr ac yn y dyfodol. Mae gan yr heddlu raglenni datblygiad proffesiynol ac arwain da ar waith…”.

Wedi dweud hynny, mae rhagor o waith i’w wneud i ddatblygu a chynnal gwybodaeth a sgiliau swyddogion a staff Heddlu De Swydd Efrog. Dywedodd swyddogion yr heddlu y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn croesawu mwy o hyfforddiant gloywi sydd hefyd yn cynnwys achosion mwy diweddar, a heriol, er mwyn eu helpu i ystyried materion newydd y bydd rhaid iddynt baratoi ar eu cyfer.

> ***Argymhelliad 1 – Mae’r IOPC yn argymell i Heddlu De Swydd Efrog sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau’r rhai sydd ynghlwm â gwaith camfanteisio ar blant yn rhywiol yn cael eu cadw’n gyfredol fel rhan o’u cylchred gwelliant parhaus. Dylai hyn gynnwys:***
>
> - ***hyfforddiant rheolaidd i ystyried trosiant staff***
> - ***anghenion datblygiad proffesiynol parhaus***
> - ***unrhyw faterion newydd a datblygiadau newydd o ran arfer orau***

Gall gwrando ar brofiadau goroeswyr, a'u deall, fod yn ffordd dda o godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â chamfanteisio ar blant yn rhywiol mewn sesiynau hyfforddi a datblygu empathi. Rydym yn ymwybodol bod Heddlu De Swydd Efrog wedi ystyried cynnig gan oroeswr i gymryd rhan yn ei sesiynau hyfforddi ond na fanteisiwyd ar y cynnig hwn oherwydd pryder y byddai'n peri trallod i'r goroeswr.

Er y gallai ail-fyw eu profiad mewn nifer o sesiynau hyfforddi fod yn brofiad trawmatig, mae dulliau eraill a allai ymgorffori lleisiau goroeswyr heb achosi trawma, gan ganiatáu i brofiadau goroeswyr gael eu clywed a dangos i swyddogion yr effaith mae ymdriniaeth yr heddlu ag ymchwiliad yn ei chael. Er enghraifft, mae Heddlu De Swydd Efrog wedi defnyddio cyfraniadau gan rieni goroeswr ac wedi dangos fideo yn disgrifio profiad un dioddefwr.

> ***Argymhelliad 2 – Mae'r IOPC yn argymell y Coleg Plismona i chwilio am ragor o gyfleoedd i ymgorffori 'lleisiau goroeswyr' mewn hyfforddiant cenedlaethol ynghylch camfanteisio ar blant yn rhywiol a darparu arweiniad o ran sut ellir ymgorffori 'llais goroeswyr' mewn hyfforddiant lleol gan heddluoedd.***

Er bod y materion y gwnaethom eu harchwilio wedi digwydd rhwng 1992 a 2013, a bod gwaith helaeth wedi digwydd yn y maes hwn gan yr heddlu ers hynny, rydym yn bryderus bod rhai problemau yn dal i fodoli heddiw, ac mae gwersi eto i'w dysgu yn sgil hyn ar draws plismona.

Gall enghreifftiau go iawn, neu astudiaethau achos yn seiliedig ar enghreifftiau go iawn, helpu i ddod â rhai o'r problemau hyn yn fyw a helpu swyddogion a staff i ystyried beth fyddent hwythau wedi'i wneud yn y sefyllfa honno.

> ***Argymhelliad 3 – Mae'r IOPC yn argymell i'r Coleg Plismona chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio unrhyw elfennau o Ymgyrch Linden mewn hyfforddiant yn y dyfodol (er enghraifft, astudiaethau achos).***

Cofnodi troseddau

Canfuom nifer o achosion lle na chafodd troseddau eu cofnodi pan y dylent fod wedi'u cofnodi, gan gynnwys adroddiadau o ymosodiad rhywiol neu weithgarwch rhywiol â phlentyn. Darparodd Heddlu De Swydd Efrog wybodaeth fanwl ynghylch gweithredu i ni er mwyn gwella ymarfer cofnodi troseddau. Yn arolwg cywirdeb data 2018 yn Heddlu De Swydd Efrog gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, canfuwyd bod Heddlu De Swydd Efrog wedi gwella prosesau cofnodi troseddau ers yr adroddiad diwethaf yn 2014 a bod 'ymrwymiad i gofnodi troseddau sy'n canolbwyntio ar droseddwyr'. Nodwyd gwelliant sylweddol yn y gwaith o gofnodi troseddau rhywiol ers 2014 a phwysleiswyd peth arfer dda o ran

craffu ac archwilio gan fiwro troseddau'r heddlu a chofrestrydd trosedd yr heddlu. Yn ogystal, nodwyd yn yr adroddiad bod dioddefwyr bregus yn cael eu cefnogi drwy gytundebau diogelu'r heddlu, hyd yn oed yn yr achosion hynny nad oedd wedi'u cofnodi.

Wedi dweud hynny, pwysleisiodd arolygiad 2014 achos dros bryderu gan nad oedd yr holl droseddau yn ymwneud ag oedolion a phlant bregus a adroddwyd yn uniongyrchol i adran diogelu'r cyhoedd Heddlu De Swydd Efrog (drwy adroddiadau trydydd parti proffesiynol i raddau helaeth) yn cael eu hadrodd. Rydym yn bryderus fod ail-arolygiad o gywirdeb data trosedd yn Heddlu De Swydd Efrog (2020) gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi wedi canfod nad oes gwelliant amlwg wedi'i wneud mewn perthynas â hyn. Yn benodol, canfu arolygwyr achosion o gofnodi annigonol sylweddol o droseddau a wnaethpwyd yn erbyn plant bregus.

> ***Argymhelliad 4 – Mae'r IOPC yn argymell i Heddlu De Swydd Efrog gymryd camau i sicrhau bod ymarfer cofnodi troseddau yn ei adrannau diogelu'r cyhoedd yn cydymffurfio â Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref ar gyfer Troseddau a Gofnodwyd.***

Gweithio gyda dioddefwyr a goroeswyr

Pwysleisiodd ein hymchwiliadau nifer o broblemau o ran sut aeth swyddogion a staff yr heddlu ati i ymdrin â dioddefwyr a goroeswyr camfanteisio ar blant yn rhywiol. Mae Heddlu De Swydd Efrog wedi dweud wrthym am newidiadau a wnaed i wella ymarfer yn y maes hwn.

Mae Cod y Dioddefwyr yn adnodd pwysig i helpu asiantaethau cyfiawnder troseddol, gan gynnwys yr heddlu, i sicrhau eu bod yn darparu lefel briodol o wasanaeth. Nodwn y canfuwyd yn adolygiad cenedlaethol y Comisiynydd Dioddefwyr yn 2018/19 bod monitro cydymffurfiaeth â Chod y Dioddefwyr bron â bod yn anfodol ar draws pob heddlu.

> ***Argymhelliad 5 – Mae'r IOPC yn argymell i Heddlu De Swydd Efrog sicrhau bod ganddo ffordd effeithiol o fonitro cydymffurfiaeth â Chod y Dioddefwyr. Dylai hyn gynnwys ansawdd y rhyngweithiadau rhwng yr heddlu dan sylw ac eraill, yn hytrach nag 'ymarfer tic bocs' o'r hawliadau amrywiol yn cael eu cyhoeddi.***

Dywedodd Heddlu De Swydd Efrog wrthym fod newidiadau yn y system TG yn golygu pan gaiff trosedd ei gofnodi gan ddefnyddio Connect (system reoli cofnodion yr heddlu), erbyn hyn anogir y swyddog ymchwilio i ddiweddaru dioddefwyr yn rheolaidd, ac o leiaf un waith bob 28 diwrnod. Fodd bynnag, pan siaradasom â

rheolwr gwasanaeth y cynghorydd annibynnol lleol ar drais rhywiol[10], cawsom wybod nad yw'r diweddariadau yn cael eu gweithredu bob tro. Dywedodd fod y cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol yn cael galwadau rheolaidd gan ddioddefwyr yn cwyno am nad ydynt wedi'u diweddaru.

Argymhelliad 6 – Mae'r IOPC yn argymell i Heddlu De Swydd Efrog gymryd camau i sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu diweddaru'n rheolaidd, ac o leiaf bob 28 diwrnod, yn unol â'r disgwyliadau.

Cawsom wybodaeth gan Heddlu De Swydd Efrog yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gydag arbenigwyr, megis cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol a chyngorwyr annibynnol ar drais rhywiol plant i gefnogi dioddefwyr sydd wedi goroesi camfanteisio ar blant yn rhywiol, helpu'r heddlu i gynnall cyswllt â goroeswyr, a helpu swyddogion i gasglu tystiolaeth.

Disgrifiodd yr heddlu y broses mae'n ei dilyn i atgyfeirio at y gwasanaethau hyn, gan egluro'r angen i gael caniatâd gan ddioddefwr neu oroeswr neu ganiatâd ei riant/gwarcheidwad.

Serch hynny, dywedodd rheolwr gwasanaeth y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol lleol wrthym pan nad yw swyddog ymchwilio yn deall nac yn egluro'n llwyr rôl y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol, gall hyn effeithio'n uniongyrchol ar ba un ai a yw rhywun yn rhoi caniatâd i'w fanylion cyswllt gael eu hanfon ymlaen ai peidio. Gall hyn oedi unrhyw gyswllt â gwasanaeth y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol, a chael cymorth ganddo.

Yn ogystal, nid yw cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol yn cael eu defnyddio mor effeithiol ag y gallent bob tro. Weithiau, cânt eu defnyddio i anfon diweddariadau ymlaen, yn hytrach na chael unrhyw gyswllt uniongyrchol rhwng y swyddog a'r goroeswr. Weithiau, ni chânt eu defnyddio o gwbl.

Argymhelliad 7 – Mae'r IOPC yn argymell i Heddlu De Swydd Efrog barhau i weithio â gwasanaeth y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol lleol i wella ei drefniadau gwaith. Dylai hyn gynnwys:

- ***pwynt cyswllt penodol yn Heddlu De Swydd Efrog at ddefnydd gwasanaeth y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol***
- ***sicrhau bod cynrychiolwyr Heddlu De Swydd Efrog sydd â chyswllt â dioddefwyr a goroeswyr yn deall yn llwyr rôl gwasanaeth y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol ac yn gallu egluro hyn i eraill yn ôl yr angen***
- ***egluro sut darperir diweddariadau i ddioddefwyr a goroeswyr***

- ***sut allai gwasanaeth y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol fod ynghlwm â hyfforddiant Heddlu De Swydd Efrog er mwyn codi ymwybyddiaeth o'i rôl a'i gyfrifoldebau a sut allant weithio gyda'i gilydd***

Gweithio gyda'r gymuned leol

Wrth ymchwilio i'r modd yr ymdrinnir â chamfanteisio ar blant yn rhywiol yn Ne Swydd Efrog, canfuom fod cyfleoedd wedi'u colli i gysylltu ag arweinwyr cymunedol i geisio eu safbwyntiau ynghylch sut i ddatblygu cydlyniad cymunedol a/neu adnabod unrhyw gamau gweithredu y gallai Heddlu De Swydd Efrog eu hystyried i fynd i'r afael â chamfanteisio ar blant yn rhywiol.

Mae Heddlu De Swydd Efrog wedi dweud wrthym ei fod wedi dechrau llunio ymarfer ar draws ei bedair ardal i sicrhau bod cysylltiadau ym mhob cymuned sydd wedi'u hadnabod er mwyn ymateb yn fwy prydlon yn y dyfodol i'w hanghenion, deall effaith bosibl unrhyw achosion cenedlaethol neu ryngwladol arnynt, a chynnig sicrwydd a chymorth yn ôl yr angen.

> ***Argymhelliad 8 – Mae'r IOPC yn argymell yn ystod ei ymarfer llunio bod Heddlu De Swydd Efrog yn parhau i ymgysylltu â chymunedau i gryfhau a magu ymddiriedaeth a hyder yng ngwasanaeth yr heddlu ac annog parodrwydd i ddarparu gwybodaeth/deallusrwydd i helpu i fynd i'r afael â phroblemau lleol.***

Meysydd i'w hystyried ymhellach ac argymhellion ar eu cyfer

Yn ogystal â'r argymhellion a nodwyd uchod, adnabuom ragor o feysydd yr ydym yn gofyn i heddluoedd a rhanddeiliaid plismona fyfyrio arnynt ac ystyried a oes angen cymryd rhagor o gamau gweithredu. Cyflwynir argymhellion yn yr adran hon dan Adran 10 *Deddf Diwygio'r Heddlu.*[11]

Yng ngoleuni pryder y cyhoedd ynghylch Ymgyrch Linden, byddem yn annog yn gryf i'r sefydliadau penodol ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r argymhellion ychwanegol yr ydym wedi'u cyflwyno dan adran 10.

Effaith hirdymor ar oroeswyr achosion o gamfanteisio

Mae gan nifer o'r goroeswyr y siaradasom â nhw yn ystod ein gwaith ar Ymgyrch Linden gofnodion troseddol heddiw o ganlyniad i'w gweithredoedd pan oeddynt yn cael eu camfanteisio. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cydnabod yn ei *Ganllawiau Erlyn Achosion o Gam-drin Plant yn Rhywiol* y canlynol:

> "*weithiau gall troseddwyr gyflawni yr hyn a elwir yn 'drosedd goroesi', h.y. cyflawni trosedd er mwyn dod o hyd i ddiogelwch neu gyflawni trosedd er mwyn sicrhau cyfiawnder. Er enghraifft, gwneud difrod i eiddo y mae'r troseddwr neu gyswllt iddo yn berchen arno. Gall troseddu fod yn ymateb i'r gamdriniaeth mae plentyn neu unigolyn ifanc yn ei dioddef, h.y. mynegi'n allanol ei drawma mewnol. Yn ogystal, gall y dioddefwr fod wedi cyflawni trosedd pan oedd dan ddylanwad y sawl sy'n ei gam-drin a gall hyn fod yn fodd i'r sawl sy'n cam-drin reoli'r dioddefwr a'i rwystro rhag cyflwyno cwyn ynghylch y gamdriniaeth mae'n ei phrofi.*"

O ganlyniad, caiff bywydau goroeswyr eu niweidio ac mae hyn yn gallu cael effaith ar faterion megis cyflogaeth.

Mae troseddoli plant y camfanteisir arnynt hefyd yn ymwneud â chamfanteisio ar blant yn droseddol. Os ystyrir plentyn yn 'droseddol', gall hyn effeithio ar y ffordd mae'r heddlu yn ymdrin ag ef a'r tebygolrwydd o gamau diogelu priodol yn cael eu cymryd.

Mae edrych y tu hwnt i gamau troseddol i'r rhesymau sylfaenol wrth wraidd iddynt yn rhan allweddol o swyddogion yr heddlu yn defnyddio eu chwilfrydedd proffesiynol. Wedi dweud hynny, rydym hefyd yn cydnabod bod cydbwysedd anodd i'w gyflawni oherwydd pe na fyddai'r heddlu yn gweithredu yn erbyn plant a phobl ifanc, gallai hyn eu gwneud yn fwy agored i gamfanteisio.

Crëodd Adran 45 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 egwyddor o beidio ag erlyn ar gyfer dioddefwyr achosion o fasnachu pobl neu gaethwasiaeth fodern, ond nid yw'n glir a yw'n berthnasol i gamfanteisio ar blant yn rhywiol. Mae'r protocol cenedlaethol ynghylch lleihau troseddoli di-angen plant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal a gyhoeddwyd ar y cyd gan yr Adran Addysg, y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2018 yn nodi: "*Dylid gwneud pob ymdrech i osgoi troseddoli di-angen plant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal, gan gynnwys drwy weithgarwch atal. Mae hyn er mwyn cydnabod y ffaith y gall profiadau plant sy'n derbyn gofal gyfrannu at ymddygiadau sy'n eu gwneud yn arbennig o fregus i fod ynghlwm â'r system cyfiawnder ieuenctid, gan, o bosibl, effeithio ar eu rhagolygon mewn bywyd.*"

Mae'n cydnabod y gall plant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal fod yn arbennig o fregus i gamfanteisio ac mae'n nodi "*y dylai unrhyw benderfyniad i gyhuddo ac erlyn unigolyn ifanc ystyried a yw ei gamau gweithredu oherwydd achosion o gamfanteisio o'r fath neu fasnachu pobl neu gaethwasiaeth fodern.* "

Gellid defnyddio'r un ystyriaethau o ran atal a phenderfyniadau ynghylch cyhuddo ac euogfarnu yn ehangach i blant a phobl ifanc eraill sydd mewn risg o gamfanteisio, neu ddioddefwyr camfanteisio, yn ogystal â'r rhai sy'n derbyn gofal neu'n gadael gofal.

Argymhelliad 9 – Mae'r IOPC yn argymell i Gomisiwn y Gyfraith adolygu'r fframwaith deddfwriaethol ynghylch troseddau a gyflawnir pan mae plentyn neu unigolyn ifanc yn cael ei feithrin i gael perthynas amhriodol neu ei gamfanteisio er mwyn adnabod a fyddai unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth yn briodol i leihau'r effaith ar eu rhagolygon mewn bywyd. Dylai hyn gynnwys argaeledd amddiffyniadau cadarn a'r potensial i hidlo euogfarnau a ddigwyddodd dan amgylchiadau o'r fath wrth ddatgelu cofnodion troseddol.

Rhannu gwybodaeth ar draws ffiniau heddluoedd

Yn rhai o'n hymchwiliadau, canfuwyd genethod mewn ceir gyda dynion hŷn. Mae Heddlu De Swydd Efrog wedi darparu gwybodaeth ynghylch y camau maent wedi'u cymryd er mwyn cyfarparu swyddogion i ddeall y risgiau posibl i blant a phobl ifanc yn y sefyllfa hon a pha gwestiynau y dylid eu gofyn i'r deiliaid pan mae hyn yn digwydd. Siaradasom â swyddogion plismona ffyrdd a gadarnhaodd mai dyma'r achos.

Serch hynny, dywedodd y swyddogion plismona ffyrdd eu bod weithiau yn wynebu achosion fel hyn lle'r oedd rhywun wedi croesi'r ffin o ardal heddlu arall. Gwnaethant ddisgrifio'r trothwy ar gyfer rhannu gwybodaeth yn y sefyllfa hon yn 'eithaf uchel', gan ddweud, yn gyffredinol, nad yw systemau heddluoedd unigol yn weladwy i swyddogion mewn ardal arall.

Pan mae rhywun yn croesi ffin heddlu, gallant weld y wybodaeth sydd ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu yn unig. Er mwyn gweld unrhyw wybodaeth ychwanegol, byddai gofyn iddynt anfon cais dros e-bost i'r heddlu arall ac aros am ymateb, a gallai hynny gymryd amser ac amlygu plant a phobl ifanc bregus i fwy o risg. Mae hon yn broblem sylweddol gan fod iddi'r potensial i oedi unrhyw gyfleoedd i ddiogelu ac amddiffyn plentyn sydd wedi'i gymryd a'i arwain dros ffin heddlu.

Argymhelliad 10 – Mae'r IOPC yn argymell i Gadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol Gwasanaeth Digidol yr Heddlu i ystyried a ellid defnyddio datrysiadau TGCh sydd eisoes yn bodoli yn wahanol neu a oes unrhyw newidiadau i TGCh (ac unrhyw systemau a phrotocolau ategol) yn ofynnol er mwyn galluogi swyddogion ar y rheng flaen i gael mynediad mwy uniongyrchol at wybodaeth berthnasol gan heddluoedd eraill er mwyn eu galluogi i ddiogelu ac amddiffyn pobl fregus yn fwy effeithiol. Dylai hyn

gynnwys gweithio gyda Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu i annog arfer dda ar draws heddluoedd.

Sicrhau bod dysg yn cael ei gweithredu a'i mewnosod

Mae Heddlu De Swydd Efrog wedi dweud wrthym am y nifer o newidiadau sydd wedi'u gwneud yno ers i ni ymchwilio i'r materion. Nid ydym wedi asesu a yw'r newidiadau hyn wedi arwain at welliannau mewn ymarfer, ond rydym yn parhau i fod yn bryderus bod meysydd sy'n peri pryder yn parhau i fodoli, er bod sawl adroddiad ac argymhelliad wedi'u cyflwyno.

Roedd Heddlu De Swydd Efrog yn destun arolygiad amddiffyn plant cenedlaethol gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi ym mis Mai 2014[12] ac adolygiad ôl-ymchwiliad ym mis Ebrill 2015. Yn sgil yr adolygiad ôl-ymchwiliad, argymhellwyd Heddlu De Swydd Efrog i barhau i weithio i weithredu'r argymhellion a gyflwynwyd yn 2014 i sicrhau y cânt eu gweithredu'n llawn. Nid oes arolygiadau o feysydd targedig ar y cyd wedi'u cynnal yn ardal Heddlu De Swydd Efrog hyd yn hyn.

Yn ogystal, dywedodd rheolwr gwasanaeth y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol wrthym er bod peth gwelliannau wedi bod yn 2015-16, bod peth dirywiad wedi bod ers hynny.

Rydym wedi rhannu'r argymhellion hyn a byddwn yn rhannu ein hadroddiad llawn gydag Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi maes o law i fod yn sail i unrhyw waith arolygu yn y dyfodol mewn perthynas â Heddlu De Swydd Efrog.

Mae'n bwysig er hyder y cyhoedd bod cymunedau lleol a rhanddeiliaid yn deall y cynnydd mae Heddlu De Swydd Efrog wedi'i wneud ac yn parhau i'w wneud yn yr ardal hon ers i ni ymchwilio i'r achosion. Drwy ei ymgysylltiad cymunedol a'i ymgysylltiad â rhanddeiliaid, nid yn unig y gall Heddlu De Swydd Efrog ddarparu'r sicrwydd hwn yn barhaus ond deall hefyd profiadau'r rheiny sydd wedi bod mewn cyswllt â'r heddlu a defnyddio hyn i fwydo gwelliant parhaus yn yr ardal hon.

Argymhelliad 11 - Mae'r IOPC yn argymell i Heddlu De Swydd Efrog ystyried sut all asesu ac arddangos effaith y camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â materion ymdrin â chamfanteisio ar blant yn rhywiol. Dylai hyn gynnwys sut mae'n deall a yw camau gweithredu wedi cyflawni'r effaith fwriadedig ac ystyried sut maent yn hysbysu'r gymuned o'r cynnydd sydd wedi'i wneud i helpu gydag ymwybyddiaeth a hyder y cyhoedd.

Un o ganfyddiadau allweddol Ymgyrch Linden oedd na chafodd y problemau ynghlwm â chamfanteisio ar blant yn rhywiol eu cydnabod yn ddigon cyflym ac nad oedd swyddogion yn meddu ar y sgiliau neu'r profiad digonol a oedd eu hangen i ymdrin â'r problemau a wynebasant. Gall gweithgareddau hyfforddiant a datblygiad chwarae rôl allweddol yn atal hyn rhag digwydd yn y dyfodol, yn enwedig gyda mathau newydd neu lai cyffredin o droseddau.

Cydnabuom fod y tirlun plismona yn golygu bod heddluoedd, naill ai'n unigol neu ar y cyd, yn cael ceisiadau gan sawl ffynhonnell i ddarparu hyfforddiant ychwanegol ar feysydd â blaenoriaeth gwahanol o blismona ac yn aml bydd y gofynion yn mynd y tu hwnt i'r capasiti. Gallai dull mwy strategol a chydweithredol i adnabod ac ymateb i flaenoriaethau ledled Cymru a Lloegr gefnogi heddluoedd, darparu mwy o gysondeb a symleiddio'r gwaith sydd ei angen i ddatblygu a chyflawni adnoddau a hyfforddiant.

Argymhelliad 12 - Mae'r IOPC yn argymell i'r Coleg Plismona a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu weithio gyda'i gilydd i archwilio'r posibilrwydd o greu fforwm i adnabod materion pwysig plismona, cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer dysgu a datblygu ar lefel genedlaethol a darparu arweinyddiaeth, cyngor a chefnogaeth i heddluoedd. Rhagwelir y byddai fforwm o'r fath yn cynnwys o leiaf y Coleg Plismona, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, yr IOPC ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi. Byddai cymeradwyaeth o'r fath angen ystyried yr angen i brif swyddogion unigol wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch blaenoriaethau yn ystyried cyd-destun a materion lleol.

Meysydd eraill o ddysg y gwnaethom eu hystyried

Nid arolygiaeth mohonom ac ni wnaeth ymarfer cyfredol Heddlu Swydd De Cymru ffurfio rhan o'n hymchwiliadau dan Ymgyrch Linden. Wedi dweud hynny, roedd yn bwysig i ni adnabod bod arfer plismona wedi newid yn sylweddol yn y meysydd sy'n peri pryder. Gwnaethom geisio sicrwydd gan Heddlu De Swydd Efrog, rhanddeiliaid a gwybodaeth a oedd ar gael drwy arolygiadau a wnaethpwyd gan gyrff eraill a chasglwyd mai prin yw'r budd o ran cyflwyno argymhellion ychwanegol.

Er tryloywder, mae manylion y meysydd ychwanegol y gwnaethom eu hystyried i'w gweld isod.

Arweinyddiaeth

Roedd diffyg arweinyddiaeth strategol yn broblem a gododd ar draws sawl achos yn Ymgyrch Linden. Gwnaethom ystyried a ddylem gyflwyno argymhelliad ynghylch arweinyddiaeth a phwyntiau ffocws penodol ar gyfer camfanteisio ar blant yn rhywiol ar lefel uwch.

Yn 2019, cyhoeddodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi adroddiad thematig yn seiliedig ar arolygiadau amddiffyn plant cenedlaethol yr oedd wedi'u cynnal.[39]

Mae adran yn seiliedig ar rolau arweinwyr ac arweinyddiaeth yn nodi "ym mhob heddlu yr ydym wedi ymweld ag ef, rydym yn gweld uwch arweinwyr, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, swyddogion ar y rheng flaen a staff sy'n ymroddedig i gadw plant bregus yn ddiogel".

Mae hefyd yn dweud "Yn ddieithriad, mae cynlluniau heddlu a throsedd y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, a blaenoriaethau heddluoedd yn adlewyrchu ymrwymiad amlwg i ddiogelu plant a phobl fregus eraill".

Er bod yr adroddiad yn cydnabod bod rhai materion yn parhau i fodoli gan gynnwys capasiti, y gallu i ddatblygu mwy o ddulliau ataliol a diffyg cysondeb, mae hefyd yn nodi bod arweinwyr yr heddlu yn fwy ymwybodol o'r angen i sicrhau bod llywodraethiant a phrosesau yn cefnogi'n well canlyniadau ar gyfer plant, mae heddluoedd yn gwybod mwy am y cyd-destun ehangach mewn perthynas â cham-drin plant a deall yr angen i gynlluniau fynd i'r afael â nodweddion amrywiol cam-drin plant, a chamfanteisio arnynt.

Mae gan bob heddlu yng Nghymru a Lloegr aelod o'r Uwch Dîm Rheoli sy'n gyfrifol am amddiffyn plant, yn aml fel rhan o bortffolio ehangach o amddiffyn pobl fregus neu ddiogelu. Mae gan Heddlu De Swydd Efrog Prif Gwnstabl Cynorthwyol sydd, fel rhan o'i gyfrifoldebau am Wasanaethau Trosedd Arbenigol, yn gyfrifol am Amddiffyn a Diogelu'r Cyhoedd. Mae arweinydd strategol ar gyfer cam-drin plant yno hefyd ar lefel prif arolygydd.

Chwilfrydedd proffesiynol

Yn nifer o'r achosion y gwnaethom ymchwilio iddynt, canfuom ddiffyg chwilfrydedd proffesiynol ar ran swyddogion. Yn hytrach nag edrych ar y darlun ehangach ac adnabod pryderon posibl o ran diogelu, yn aml byddai swyddogion yn canolbwyntio'n unig ar droseddau penodol. Aethom ati i ystyried sut oedd chwilfrydedd proffesiynol wedi newid yn Heddlu De Swydd Efrog ac yn ehangach.

Ar lefel genedlaethol, datblygodd a gweithredodd y Coleg Plismona becyn hyfforddiant bregusrwydd un diwrnod yn 2018. Mae'r pecyn yn annog swyddogion ar y rheng flaen a staff i edrych y tu hwnt i'r amlwg a theimlo'n ddigon galluog i ddefnyddio eu chwilfrydedd proffesiynol wrth ymdrin â phobl fregus. Mae'r hyfforddiant yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar drwy gyfarparu swyddogion a staff y rheng flaen i adnabod arwyddion o fregusrwydd a gweithredu'n effeithiol cyn gynted â phosibl.

Caiff y pecyn hyfforddiant hwn, ymhlith eraill, ei ddefnyddio gan Heddlu De Swydd Efrog i hyfforddi aelodau perthnasol o staff. Pan siaradasom â Heddlu De Swydd Efrog, darparwyd hyfforddiant i bob Swyddog Diogelu Pobl Fregus (160), Swyddog Ymateb a Chymdogaethau mewn Lifrai (1138), Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (143), Swyddogion Ymchwiliadau (87), staff y ddesg Ymholi, Gwasanaethau Cefnogi Gweithredol, staff Cyfathrebu Atlas Court, Cwnstabliaid Rhan Amser (70), Staff y Ddalfa (106), partneriaid yn y GIG (149), a'r Gwasanaeth Tân (340).

Defnydd o orchmynion amddiffyn

Roeddem yn bryderus ynghylch defnydd Heddlu De Swydd Efrog o Orchmynion Risg o Niwed Rhywiol a rhybuddion Herwgipio. Canfuom fod gan Heddlu De Swydd Efrog yr opsiwn o ddefnyddio'r gorchmynion hyn yn ystod y cyfnod yr ydym wedi ymchwilio iddo ond prin oedd y dystiolaeth i ddangos ei fod wedi'u defnyddio. Ymddengys bod swyddogion yn Sheffield yn eu defnyddio ond nad oedd swyddogion yn Rotherham yn eu defnyddio. Gofynasom i Heddlu De Swydd Efrog a yw'r gorchmynion hyn yn cael eu defnyddio nawr, gan bwy, a oes unrhyw ddogfennau canllaw a pholisïau mewn perthynas â'u defnydd, sut mae staff yr Uned Diogelu'r Cyhoedd yn eu defnyddio a pha un ai a yw ardaloedd yn gweithio ac yn cyfathrebu gyda'i gilydd erbyn hyn mewn perthynas â defnyddio gorchmynion.

Yn 2015, cafodd Gorchmynion Risg o Niwed Rhywiol Sifil eu disodli gan ddau orchymyn sifil newydd – Gorchmynion Risg Rhywiol a Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol. Defnyddir Gorchymyn Risg Rhywiol i orfodi cyfyngiadau ar ymddygiad unigolyn pan mae'r heddlu yn credu eu bod yn cyflwyno risg o niwed rhywiol i'r cyhoedd. Nid yw hyn yn golygu bod rhaid cael euogfarn droseddol. Defnyddir Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol yn gyffredinol yn dilyn euogfarn am drosedd rhywiol neu dreisgar neu drosedd arall peryglus a restrir yn Atodlen 3 neu Atodlen 5 Deddf Troseddau Rhywiol 2003.

Dywedodd Heddlu De Swydd Efrog wrthym mai ei brif nod fyddai sicrhau euogfarn droseddol a Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol felly mae niferoedd uchel o'r rhain, mewn perthynas â Gorchmynion Risg Rhywiol. Dywedir bod ymchwiliwyr yn y timau Diogelu Pobl Fregus bellach yn ystyried gwneud cais am Orchymyn Atal Niwed Rhywiol fel rhan o drefn wrth erlyn troseddwyr am droseddau perthnasol.

Er nad oes polisi gan yr heddlu ynghylch defnydd Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol, dywedodd Heddlu De Swydd Efrog wrthym sut mae'n mynd ati i hyrwyddo eu defnydd drwy ddatblygu staff. Mae hyn yn cynnwys sesiwn hyfforddiant wedi'i hanelu at bob ymchwilydd Diogelu Pobl Fregus, gan gynnwys manylion ynghylch sut a pham i wneud cais am orchymyn, amodau effeithiol Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol ac astudiaethau achos i arddangos arfer orau. Caiff y defnydd o Orchmynion Atal Niwed Rhywiol ei fesur drwy'r grŵp arwain uwch ac mae'n ffurfio rhan o'r fframwaith perfformiad sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Dywedodd Heddlu De Swydd Efrog wrthym sut mae'n defnyddio Rhybuddion Herwgipio Plentyn fel adnodd diogelu. Nodwyd rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2020, cyhoeddwyd cyfanswm o 588 o Rybuddion Herwgipio Plentyn ar draws ardal yr heddlu. Cynhaliwyd adolygiad ac archwiliad o'r defnydd o Rybuddion Herwgipio Plentyn gan dîm Perfformiad a Llywodraethu Diogelu Pobl Fregus yn 2020 a ysgogodd adolygiad o gyfarwyddyd gweithdrefnol heddlu. Mae Heddlu De Swydd Efrog yn datblygu hyfforddiant ar hyn o bryd ar gyfer swyddogion y rheng flaen a staff i bwysleisio'r diwygiadau hyn.

Mae'r Coleg Plismona wedi Awdurdodi Ymarfer Proffesiynol sy'n darparu canllawiau ynghylch Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol, Gorchmynion Risg Rhywiol a Rhybuddion Herwgipio Plentyn.

Mae'r Swyddfa Gartref hefyd yn darparu canllawiau statudol ynghylch Rhan 2 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 sy'n cynnwys pennod yn seiliedig ar orchmynion sifil. Mae hyn yn mynd i'r afael â Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol a Gorchmynion Risg Rhywiol ac yn cynnwys beth yw'r gorchmynion, gwneud cais amdanynt, gwybodaeth benodol ynghylch gangiau, gorchmynion dros dro, a rôl Gwasanaeth Erlyn y Goron,

cyfyngiadau amser, y weithdrefn yn y llys, cymorth cyfreithiol, cyfyngiadau adrodd a phynciau amrywiol eraill. Wrth wneud cais am Orchymyn Atal Niwed Rhywiol neu Orchymyn Risg Rywiol, mae'n rhwymedigaeth ar swyddogion i ystyried y canllawiau hyn.

Adnabod yn gynt plant sydd mewn risg o gamfanteisio ar blant yn rhywiol, neu sy'n dioddef o achosion o'r fath

Mae adnabod yn gynnar plant sydd mewn risg o gamfanteisio ar blant yn rhywiol, neu sy'n dioddef o achosion o'r fath, yn galluogi i gefnogaeth briodol gael ei sefydlu ac yn eu hannog i beidio â chyflawni troseddau eu hunain, yn hytrach na chael eu troseddoli. Gwnaethom ystyried a ddylem gyflwyno argymhelliad o ddysg i fynd i'r afael â hyn ochr yn ochr â'n hargymhelliad ynghylch adolygiad o'r fframwaith statudol yn seiliedig ar droseddau sy'n cael eu cyflawni pan mae plentyn yn dal i gael ei gamfanteisio.

Fel rhan o'n hystyriaeth, gwnaethom ymgynghori ag ystod o gyrff ac edrych ar waith a mentrau sydd eisoes ar waith a all gyfrannu at hyn.

Fis Ionawr 2021, cyhoeddodd y Llywodraeth Strategaeth Mynd i'r Afael â Cham-drin Plant yn Rhywiol. Mae hon yn nodi ymateb system gyfan i bob ffurf ar gam-drin plant yn rhywiol. Mae'n gosod mesurau ar gyfer ymyrraeth ac atal cynnar, gan gynnwys cyfarparu partneriaid diogelu ar y rheng flaen â'r adnoddau a'r hyfforddiant i adnabod achosion o gam-drin plant yn rhywiol, a chodi ymwybyddiaeth drwy gyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni.

Mae'r Gronfa Perthnasoedd Dibynadwy gwerth £13.2 miliwn yn ariannu 11 prosiect dan arweiniad awdurdodau lleol ledled Lloegr yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc, 10-17 oed, sydd wedi'u hadnabod yn lleol o fod mewn risg o gam-drin neu gamfanteisio ar blant yn rhywiol, camfanteisio ar blant yn droseddol a cham-drin cyfoed ar gyfoed. Nod y gwaith yw datblygu gwytnwch o ran niwed drwy fabwysiadu perthnasoedd dibynadwy ac iach gydag oedolion cyfrifol. Mae hefyd yn anelu at ddeall bygythiadau lleol newydd a lleihau troseddoli plant sydd mewn risg o gael eu camfanteisio. Bydd gwerthuso hyn yn ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth o ran beth sy'n gweithio er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc rhag achosion o gam-drin a chamfanteisio a bwydo'r gwaith o wneud polisïau yn y dyfodol.

Mae'r Swyddfa Gartref yn ariannu rhaglen atal, sy'n cael ei chyflwyno gan Cymdeithas y Plant sy'n gweithio gydag ystod o bartneriaid ar draws Cymru a Lloegr i fynd i'r afael ag achosion o gam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio ar blant yn droseddol a Masnachu Pobl Caethwasiaeth Fodern. Mae hyn yn gofyn gwaith ar lefel leol a rhanbarthol i oresgyn achosion o gamfanteisio a chyflawni ymyriadau teilwredig, yn seiliedig ar ddeallusrwydd yr heddlu, i wella cydweithredu o ran atal

camfanteisio, helpu i adnabod lleoliadau lle mae camfanteisio yn gyffredin, ardaloedd â blaenoriaeth a bygythiadau penodol ym mhob rhanbarth. Mae wedi helpu i wella dealltwriaeth broffesiynol o gamfanteisio, gan arwain at adnabod fwy o ddioddefwyr ac mae'n cyflawni newid o ran ardaloedd lleol yn ymateb yn gyd-destunol, yn holistig, ac yn fwy rhagweithiol i fygythiadau y tu allan i'r teulu.

Yn ychwanegol at hyn, mae gwaith wedi'i wneud o fewn plismona i gynyddu'r tebygolrwydd o adnabod yn gynnar y rhai sydd mewn risg neu sy'n ddioddefwyr camfanteisio ar blant yn rhywiol, ac ymyrryd yn gynnar. Mae hyn yn cynnwys canllawiau a hyfforddiant gwell fel y nodir yn yr adroddiad hwn a'r Rhaglen Gwybodaeth ac Ymarfer Bregusrwydd dan arweiniad yr heddlu i wella ymatebion plismona strategol i fregusrwydd ar lefel leol a rhanbarthol, gan arwain at ostyngiadau tymor hirach mewn perthynas â bygythiad, niwed a risg ym mhob maes bygythiad i fregusrwydd.

Perchnogaeth a goruchwyliaeth achosion

Yn rhai o'n hymchwiliadau, canfuom fod diffyg goruchwyliaeth. Nid oedd yn glir pwy oedd yn gyfrifol am ymchwiliadau'r heddlu, y camau gweithredu neilltuol a therfynu'r ymchwiliad. Gofynasom i Heddlu De Swydd Efrog sut mae'n sicrhau ei bod eglur pwy sy'n gyfrifol am achos ac unrhyw gamau gweithredu a rolau cysylltiedig. Gofynasom hefyd sut caiff cynlluniau ymchwiliadau eu datblygu, sut mae rheolwyr llinell yn adolygu achosion a pha wiriadau a wneir cyn y caiff achos ei gadarnhau.

Dywedodd Heddlu De Swydd Efrog wrthym fod goruchwyliwr (ar reng ditectif ringyll) yn neilltuo ymchwiliadau i swyddogion ac ymchwilwyr unigol. Caiff y swyddog neilltuol ei gofnodi ar Connect, y system gyfrifiadur, a bydd yn dangos yn glir ar dudalen gyntaf adroddiad ymchwiliad.

Cwblheir cynllun unigryw i'r ymchwiliad ar system Connect. Caiff achosion eu hadolygu bob 28 diwrnod gan y goruchwyliwr a chaiff hyn ei ddogfennu. Mae'r adolygiadau hyn yn cynnwys ystyriaeth o linellau ymholiad yn ogystal â llesiant.

Mae'r goruchwyliwr yn trafod cynllun yr ymchwiliad gyda'r swyddog neilltuol ac yn ystyried beth sydd angen ei wneud eto. Bydd rheng arolygydd yn adolygu unrhyw achosion gweithredol sydd dros bedwar mis oed, gan ddogfennu cynnydd yr ymchwiliad ac unrhyw linellau ymholi sy'n weddill.

Pan fydd ymchwiliad wedi dod i ben, dywed Heddlu De Swydd Efrog fod adroddiad cloi yn cael ei gwblhau gan y swyddog neilltuol yn nodi manylion y camau gweithredu a gymerwyd mewn perthynas â phob agwedd ar gynllun yr ymchwiliad. Yna caiff yr adroddiadau cloi hyn eu hadolygu gan y goruchwyliwr. Gwneir gwaith samplu ar hap er mwyn monitro ansawdd.

Yn 2020, ymgynghorodd y Coleg Plismona ar ganllawiau ar gyfer goruchwylwyr. Bydd y rhain yn rhoi arweiniad ynghylch sut i gefnogi pobl ar draws pob lefel o blismona, staff a gwirfoddolwyr yn effeithiol. Darparodd yr IOPC adborth fel rhan o'r ymgynghoriad hwn yn seiliedig ar yr hyn yr ydym wedi'i weld yn ymchwiliadau Ymgyrch Linden a meysydd eraill ein gwaith.

Gweithio aml-asiantaethol

Rhannwyd gwybodaeth ynghylch pryderon mewn cyfarfodydd aml-asiantaethol ond yn aml byddai gweithwyr cymdeithasol yn teimlo'n rhwystredig gan fod diffyg cyfeiriad a gweithredu gan Heddlu De Swydd Efrog. Nid oedd rolau a pherthnasoedd rhwng gwahanol asiantaethau yn eglur bob tro.

Gwnaethom ystyried agweddau amrywiol o weithio aml-asiantaethol ac a all unrhyw argymhellion fod yn fuddiol, gan gynnwys agweddau strwythurol, arweinyddiaeth fwy cydweithredol a datrys problemau ar y cyd i fynd i'r afael â'r materion hyn. Gofynasom i Heddlu De Swydd Efrog sut mae'n gweithio erbyn hyn gydag asiantaethau partner er mwyn amddiffyn plant.

Dywedodd Heddlu De Swydd Efrog wrthym fod ganddo Unedau Atgyfeirio Lleol ym mhob un o'i bedair ardal. Mae swyddogion a staff yr heddlu sy'n ffurfio'r Unedau Atgyfeirio Lleol wedi'u cyd-leoli ag asiantaethau partner o fewn y pedwar Hwb Diogelu Aml-asiantaethol, un ym mhob ardal awdurdod lleol, sy'n gweithredu yn unol â'r canllawiau statudol Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant. Mae gan bob awdurdod lleol drefniadau unigol hefyd i adlewyrchu anghenion a gofynion lleol.

Yn ôl Heddlu De Swydd Efrog, mae'r holl adroddiadau o bryderon ynghylch plant yn cyrraedd yr Unedau Atgyfeirio Lleol, a hwythau sy'n ymchwilio iddynt ac yn rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid statudol. Defnyddir y wybodaeth hon a rennir i wneud asesiad cynllunio risg a diogelwch ar y cyd. Os credir bod plentyn mewn risg wirioneddol neu bosibl o niwed sylweddol, trefnir cyfarfod strategaeth gyda'r partneriaid craidd ac unrhyw unigolyn arall sydd angen bod yn bresennol er mwyn rhannu gwybodaeth berthnasol neu gynorthwyo i fynd i'r afael â risgiau sy'n cael eu hadnabod. Dywedasant hefyd y dylai Heddlu De Swydd Efrog annog ei bartneriaid i gyflwyno deallusrwydd yn barhaus, a pheidio ag aros tan y cyfarfod aml-asiantaethol nesaf.

O'r adborth a geir gan Heddlu De Swydd Efrog, mae'r holl bartneriaid yn gytûn bod yr hybiau yn gweithio'n arbennig o dda. Maent wedi hwyluso'r gwaith o rannu gwybodaeth fanwl yn brydlon, wedi atgyfnerthu'r asesiad risg a chynllunio diogelwch llawer ehangach ar y cyd er mwyn amddiffyn plant.

Yn sgil ymweliad gan Ofsted i wasanaethau plant Rotherham ym mis Hydref 2020, canfuwyd bod "*Gwaith aml-asiantaethol effeithiol yn yr hwb diogelu aml-asiantaethol a'r bartneriaeth ehangach yn golygu bod plant a theuluoedd yn cael gwasanaeth priodol yn ôl yr anghenion sydd wedi'u hadnabod*"" a bod *"Cyfarwyddyd a phenderfyniadau gan y rheolwyr yn yr Hwb yn brydlon, yn briodol, ac yn y rhan fwyaf o achosion, yn cael eu cofnodi'n glir*."

Mae adroddiadau o ymweliadau Ofsted i Sheffield (2019) a Barnsley (2018) yn nodi sylwadau cadarnhaol tebyg. Yn yr adroddiad yn seiliedig ar Doncaster (2020), nodwyd nad yw'r ymateb i gysylltiadau ac atgyfeiriadau yn ddigon cyson eto o ran prydlondeb ond bod partneriaethau yn datblygu ac mae hyn yn cyfrannu at welliant o ran rhannu gwybodaeth ac ystyriaeth o drothwyon.

Dywedodd Heddlu De Swydd Efrog fod ei swyddog camfanteisio ar blant yn rhywiol wedi magu cysylltiadau cryf gyda phedair ardal awdurdod lleol ar draws De Swydd Efrog ac wedi annog asiantaethau partner, busnesau a chymunedau lleol ar draws y rhanbarth i adnabod arwyddion o gamfanteisio ar blant, a gweithredu arnynt. Mae hyn wedi cynnwys gwaith gyda Barnardo's a Fearless[40] a chodi ymwybyddiaeth yng nghymunedau lle mae camfanteisio yn gyffredin ledled De Swydd Efrog.

Hyfforddi a chynnwys asiantaethau eraill yn yr hyfforddiant

Dywedodd nifer o swyddogion wrthym nad oedd ganddynt wybodaeth na dealltwriaeth o gamfanteisio ar blant yn rhywiol ar adeg y digwyddiadau dan sylw yn ein hymchwiliadau, ac na chawsant wybod am broblemau yn yr ardal drwy friffiau.

Gofynasom i Heddlu De Swydd Efrog pa welliannau o ran hyfforddiant a oedd wedi'u gwneud ers 2013, gan gynnwys hyfforddiant ar y cyd ag asiantaethau eraill. Cyfeiriwyd at amrywiaeth o raglenni hyfforddiant sydd wedi digwydd mewn perthynas â chamfanteisio ar blant yn rhywiol a cham-drin plant yn rhywiol.

Rhaid i dditectifs sy'n gweithio ym maes amddiffyn plant gwblhau'r Cwrs Ymchwilwyr Cam-drin Plant Arbenigol achrededig er mwyn bod yn ymchwiliwr cam-drin plant achrededig. Caiff Ymchwilwyr Cam-drin Plant Arbenigol eu hyfforddi gyda swyddogion yr heddlu a gweithwyr cymdeithasol er mwyn adlewyrchu bywyd go iawn pan fyddent yn gweithio gyda'i gilydd.

Mae Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona ynghylch Ymchwiliadau Mawr a Diogelu'r Cyhoedd yn nodi disgwyliadau ar gyfer hyfforddiant mewn perthynas ag ymchwilio i gam-drin plant ac amddiffyn plant.

Cafodd yr hyfforddiant camfanteisio ar blant yn rhywiol a gyflwynir gan Heddlu De Swydd Efrog ei ddatblygu gyda'r Coleg Plismona a Barnardo's a'i ymgorffori ym

mhwyntiau dysgu'r adroddiad Jay. Mae hyfforddiant ar y cyd wedi'i wneud gydag academydd o Brifysgol Sheffield a helpodd gydag edrych ar ba mor gymhleth oedd modelau o gamfanteisio ar blant yn rhywiol. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys y llwybrau gwahanol o gamfanteisio ar blant yn rhywiol a rhai o'r sefyllfaoedd all pobl ifanc fod ynddynt lle maent yng nghanol y camfanteisio, ddim yn gallu dod o'r sefyllfa a ddim yn gallu dweud wrth unrhyw un.

Mae Heddlu De Swydd Efrog yn gweithio ar hyfforddiant ar y cyd gyda gwasanaethau plant ac oedolion yn seiliedig ar gamfanteisio, masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern. Mae wedi gweithio gyda chynghorau lleol, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a heddluoedd eraill i adnabod a rhannu arfer dda. Dywedodd hefyd ei fod yn darparu hyfforddiant ar y cyd i bobl fregus, plant a sefydliadau er mwyn addysgu eraill ynghylch camfanteisio ar blant yn rhywiol.

Cadw cofnodion

Yn sgil ein hymchwiliadau, sylwyd ar broblemau gan nad oedd fersiynau blaenorol o bolisïau plismona, swydd ddisgrifiadau neu ddogfennau eraill ar gael bellach ac roedd hynny yn ein hatal rhag edrych ar y gweithdrefnau a'r safonau a oedd yn ddisgwyliedig gan swyddogion a staff ar yr adeg.

Nid oeddem ychwaith yn gallu adolygu cofnodion hŷn, megis y system deallusrwydd gweithredol a chofnodion unigolion coll gan eu bod wedi'u dileu. Gofynasom sawl cwestiwn i Heddlu De Swydd Efrog ynghylch cadw cofnodion, gan gynnwys sut mae'n storio fersiynau blaenorol o ddogfennau, am ba hyd a sut mae pobl yn gwybod pa fersiwn yw fersiwn gyfredol polisi.

Dywedodd Heddlu De Swydd Efrog wrthym fod ganddo bolisi sy'n cydymffurfio â'r Canllawiau Cenedlaethol ar gyfer Safonau Gofynnol Cadw Cofnodion yr Heddlu a Chael Gwared Arnynt gan Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu sy'n sefydlu y dylid cadw polisïau am 10 mlynedd. Dywedodd wrthym fod fersiynau blaenorol o ddogfennau polisi bellach wedi'u harchifo mewn gyriant canolog gyda mynediad wedi'i gyfyngu i aelodau'r tîm polisi yn unig.

Caiff pob polisi a gweithdrefn eu cyhoeddi ar fewnrwyd yr heddlu, a dim ond fersiwn gyfredol y ddogfen y gellir ei gweld. Pob tro y caiff diwygiad ei wneud, mae'r system yn arbed fersiwn flaenorol y ddogfen yn llawn yn awtomatig. Mae gan bob dogfen stamp dyddiad ar waelod y dudalen sydd hefyd yn nodi pwy wnaeth y diwygiad.

Crëodd Heddlu De Swydd Efrog rôl Prif Swyddog Gwybodaeth ym mis Mai 2018. Mae'r rôl hon yn gyfrifol am Reoli Gwybodaeth yr Heddlu, ansawdd y data, systemau data etifeddol a datgomisiynu, creu a diweddaru polisi ynghylch cadw gwaith papur, eiddo a data electronig a chael gwared arnynt yn unol ag Amserlen Cadw

Cenedlaethol Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu. Mae'r Prif Swyddog Gwybodaeth hefyd yn gyfrifol am greu a datblygu archif yr heddlu er mwyn storio gwaith papur ac eiddo y mae dyletswydd gyfreithiol ar yr heddlu i'w cadw.

Yn ogystal â dogfennau'r Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a nodwyd uchod, mae'r Coleg Plismona wedi cyhoeddi Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig yn seiliedig ar Reoli Gwybodaeth yr Heddlu.

Gwnaethom hefyd fynd ati i adolygu arolygiadau mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi wedi'u cynnal o Heddlu De Swydd Efrog dros y bum mlynedd ddiwethaf. Ni nodwyd bod cadw cofnodion yn broblem.

Olrhain swyddogion unigol

Yn un o'r achosion dan sylw yn ein hymchwiliadau, nid oedd yr achwynydd yn gwybod enw'r swyddog traffig a oedd wedi stopio'r car yr oedd hi ynddo gyda'r sawl a oedd yn camfanteisio ar blant yn rhywiol ond disgrifiodd y swyddog yn 'Asiaidd'. Ni lwyddasom ddod o hyd i'r swyddog oherwydd nad oedd modd chwilio'r cofnodion o'r cyfnod yn ôl adran neu ethnigrwydd swyddogion. Mae Heddlu De Swydd Efrog wedi dweud wrthym nad yw ei systemau yn caniatáu chwilio systemau AD yn ôl nodweddion unigol, megis oedran, rheng, lleoliad/adran ac ethnigrwydd. Gellid cymryd rhagor o gamau i adnabod swyddogion petai achwynydd ond yn gallu darparu gwybodaeth brin yn unig.

Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig

Gwnaethom ystyried a fyddai unrhyw rai o'r problemau a godwyd yn sgil ymchwiliadau Ymgyrch Linden yn gofyn addasiadau i'r Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig.

Arweiniad a awdurdodwyd gan y Coleg Plismona yw'r Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig fel y ffynnhonnell swyddogol o ymarfer plismona proffesiynol. Disgwylir i swyddogion a staff yr heddlu ystyried yr Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig wrth gyflawni eu cyfrifoldebau oni bai bod rhesymeg glir dros wyro oddi wrtho.

Mae'r Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig yn cael ei adolygu gan y Coleg Plismona naill ai'n ôl yr amserlen neu'n ôl yr angen. Ar yr adeg ysgrifennu, cafodd yr Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig mewn perthynas â chamfanteisio ar blant yn rhywiol ei ddiweddaru diwethaf ym mis Ionawr 2020 a chafodd yr Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig ehangach mewn perthynas ag ymchwiliadau mawr ehangach a diogelu'r cyhoedd ei ddiweddaru ym mis Mawrth 2021.

Ni adnabuom unrhyw feysydd a oedd yn gofyn diweddariadau i’r Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig.

Am ragor o wybodaeth ynghylch ein gwaith neu i wneud cais am yr adroddiad hwn mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni mewn sawl ffordd:

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)
10 South Colonnade Canary Wharf London E14 4PU

Ffôn: 0300 020 0096
E-bost: enquiries@policeconduct.gov.uk
Gwefan: www.policeconduct.gov.uk
Cyfnewid testun: 18001 020 8104 1220

We welcome telephone calls in Welsh
Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg

Cyhoeddwyd mis Tachwedd 2021

© IOPC 2021

This is licensed under the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated.

This does not include material on this site as belonging to third parties.
Authorisation to use such material must be obtained from the copyright holders concerned.